

**Ar Ddydd Mawrth, 19eg Mai 2009, cynhaliwyd CCB Cyngor Cymuned Trefeurig yn Hen ysgol Trefeurig am 7.30 pm a Chyfarfod Busnes i ddilyn**

**Hysbysebwyd Fforwm Agored am 7.00 pm ond nid oedd unrhyw aelodau o'r cyhoedd yn bresennol.**

**PRESENNOL: Y Cyng. R Owen (Cadeirydd); Mrs E Davies; D M Hughes; D R Morgan; T Davies; D Sheppard a'r clerc**

**2491** Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cyng. Mrs G Price; Mrs K Walker; T Lewis; D Jones ac M Evans

**2492** **Materion Personol:** Llongyfarchodd y Cadeirydd Mrs Edwina Davies ar gyrraedd ei phen-blwydd yn 70 oed a chyflwynodd basged o flodau iddi gan yr Aelodau a'r clerc mewn gwerthfawrogiad o'i gwasanaeth hir a hael i'r Gymuned.

**2493** **CCB 2008:** Dosbarthwyd Cofnodion CCB 2008 ymlaen llaw. Cafodd y rhain eu cadarnhau yng Nghyfarfod Mehefin 2008.

**2494** **Adroddiad y Cadeirydd:** Roedd adroddiad cynhwysfawr y Cadeirydd am y flwyddyn yn cynnwys y pwyntiau canlynol:

- Colli Aelodau Cyngor, sef Daniel Huws a Merfyn Hughes yn 2008. Trefor Davies a Dafydd Sheppard yn cymryd eu lle ac wedi setlo mewn erbyn hyn.
- Gwerthfawrogiad o'r cymorth a gafwyd gan yr Is-gadeirydd, yr Aelodau a'r clerc.
- Mae'r datblygiadau sydd wedi cymryd lle'n cynnwys darparu goleuadau ar hyd y llwybr diogel i'r ysgol ym Mhenrhyncoch; gwelliannau i'r rhwystrau diogelwch lle mae'r llwybr diogel i'r ysgol yn cwrdd â'r briffordd gyferbyn â Ceirios; goleuadau rhybudd a chyfyngiad cyflymder o 50mya ar hyd yr A4159 wrth ddod at y groesffordd. Gwerthfawrogwyd cydweithrediad y Cynghorydd Sir gyda'r materion hyn ac felly hefyd ymweliad Elin Jones, y Gweinidog Materion Gwledig â Phenbont yn ddiweddar, a gytunodd i bwysu am welliannau i ymyl y ffyrdd a'r ffensys yn y pentref. Ni lwyddwyd i ddatrys y broblem o ddiffyg graeanu ar ffyrdd gwledig.
- Cafwyd siom pan werthwyd Tŷ'r Ysgol, Trefeurig gan Geredigion heb ymgynghoriad lleol. Mae'r Grŵp Datblygu wedi cael prydles ar yr ysgol am flwyddyn arall a gobeithir y bydd yr adeilad yn parhau i fod yn adnodd cymunedol.
- Neuadd y Penrhyn: Disgwylir canlyniadau'r holiadur ymgynghori i benderfynu ar ddyfodol y Neuadd. Achoswyd difrod i du mewn yr adeilad pan fyrstiodd pibellau dŵr yn ystod y gaeaf ond mae wedi'i adnewyddu erbyn hyn.
- Mae baw cŵn a sbwriel yn parhau i fod yn broblem er bod y biniau baw cŵn a ddarparwyd yn y Cae Chwarae wedi'u croesawu.
- Mynegodd un o'r trigolion anffodlonrwydd gyda pherfformiad y Cyngor ond tynnodd y gŵyn yn ôl yn dilyn trafodaethau gyda'r Cadeirydd a chyd-gynghorydd.
- Mae'r Map o'r Gymuned ym Mhenrhyncoch wedi'i ddiweddarau ac mae'r fersiwn newydd yn awr yn ei le.
- Mae'r ymgynghoriad wedi dechrau ar Gynllun Datblygu Lleol Ceredigion; mae'n bwysig ein bod yn cymryd rhan yn y broses hon os ydym am ddylanwadu ar ddatblygiadau'r dyfodol. Mae'r cynnig i ddatblygu fferm wynt fawr yn ardal Nant-y-moch yn debygol o fod yn un dadleuol.

**2495 Ethol Cadeirydd ar gyfer 2009/10**

Gan fod y Cynghorydd M Evans wedi tynnu'n ôl o'i enwebiad, nid oedd yn bosibl dilyn y drefn arferol o wahodd yr is-gadeirydd i ymgymryd â'r gadeiryddiaeth am y flwyddyn ddilynol. PENDERFYNWYD gwahodd y Cynghorydd R Owen i barhau fel Cadeirydd am flwyddyn arall. Cytunodd y Cynghorydd Owen i'r cynnig ac arwyddodd y Datganiad Derbyn.

Diolchodd Y Cyng. Mrs E Davies i'r Cyng. Owen am y ffordd roedd wedi cyflawni ei ddyletswyddau a llongyfarchodd ef ar ei benodiad am dymor pellach.

**2496 Ethol Is-gadeirydd**

Cynigiwyd Y Cyng. Trefor Davies a'i eilio'n unfrydol. Cytunodd i dderbyn yr enwebiad.

**2497 Ethol Cynrychiolwyr Pwyllgorau**

- **Neuadd y Penrhyn:** Y Cyng. Mrs G Price – Pwyllgor y Neuadd  
Y Cyng. Mrs K Walker - Gweithgor
- **PATRASA:** Y Cyng. Mrs G Price
- **Cae Chwarae Pen-bont:** Y Cyng. Trefor Davies
- **Hen Ysgol Trefeurig:** Y Cyng. R Owen
- **Cartref Tregerddan:** Y Cyng. Mrs G. Price a D R Morgan
- **Un Llais Cymru:** Y Cyng. R Owen a Mrs K Walker
- **Rhosserchan:** Y Cyng. Daniel Jones
- **Adroddiadau i'r Wasg:** Y Cyng. R Owen  
Y Tincer  
Cambrian News